



Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru

Cwestiynau Cyffredin

Beth yw diben y pecyn cyllido £53m?

Bydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn helpu i gefnogi a chynnal y sector oherwydd yr heriau parhaus o ganlyniad i bandemig Covid-19. Bwriad y gronfa yw rhoi cymorth hanfodol i sefydliadau yn y sector, gan gynnwys lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, archifau, llyfrgelloedd, digwyddiadau a'u cyflenwyr cymorth technegol, a sinemâu annibynnol sydd oll wedi colli refeniw aruthrol oherwydd y pandemig. Bydd y gronfa'n helpu i gefnogi sefydliadau i oresgyn yr argyfwng. Pecyn achub ac adfer yw hwn yn bennaf, ond mae'n gyfle unigryw i sicrhau trawsnewid yn y sector.

Beth yw nodau allweddol y cymorth sydd ar gael?

Mae tair prif ffrwd yn perthyn i'r polisi:

- Cyllid – i ddiogelu sefydliadau cynaliadwy a chynifer o swyddi â phosibl yn y sector diwylliant.
- 'Contract Diwylliannol'– i ddefnyddio'r cyllid i sbarduno trawsnewid a chefnogi ffyrdd newydd o weithio.
- Ar drywydd ailagor – sicrhau bod cymorth yn cydreddeg ag ailagor diogel ar y cyfle cyntaf gydag arweiniad i gefnogi'r sector.

Faint o gyllid a ddarperir i gyd?

Cyfanswm y pecyn cyllid yw £53m yn 2020-21 sy'n cynnwys £50m o refeniw a £3m o gyfalaf.

Sut bydd y cyllid yn cael ei gyflenwi?

Cyflenwir y cyllid drwy dri phrif lwybr:

- £18.5m o gyllid Llywodraeth Cymru (£17.5m o refeniw, £1m o gyfalaf)
- £27.5m o gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru (£25.5m o refeniw, £2m o gyfalaf)
- £7m o gyllid i gefnogi unigolion sy'n gweithio ar eu liwt eu hunain yn y sectorau hyn, wedi'i gyflenwi gan yr Awdurdodau Lleol.

Pam nad ydych wedi darparu'r £59m o gyllid canlyniadol yn llawn?

Yn dilyn y cyhoeddiad am £1.57bn gan Lywodraeth y DU tua dechrau mis Gorffennaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cael £59m o gyllid canlyniadol.

Rydym yn falch o ddarparu'r pecyn hwn o £53m i gefnogi'r sector am weddill y flwyddyn ariannol hon, 2020-21. Aeth ein cymorth cyllidol i'r sector diwylliant eleni y tu hwnt i'r cyllid canlyniadol a gafwyd. Cyhoeddwyd £18m o becyn cyllido portffolio tua dechrau mis Ebrill i gefnogi'r ymateb brys. Rhoddwyd cymorth pellach hefyd ar draws y sector drwy Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru.

Pa sectorau sy'n gymwys i ymgeisio am y £18.5m o gyllid gan Lywodraeth Cymru?

Bydd y cyllid ar gael i'r sectorau canlynol:

- Creadigol – lleoliadau cerddoriaeth sy'n rhaglennu cerddoriaeth wreiddiol fel mwyafrif eu sioeau, stiwdios recordio ac ymarfer, cyfleusterau ôl-gynhyrchu ffilm a theledu, effeithiau gweledol ffilm a theledu, sinemâu annibynnol, lleoliadau comedi, sefydliadau cyhoeddi.
- Diwylliant – amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau lleol.
- Digwyddiadau – digwyddiadau a'u cyflenwyr cymorth technegol.
- Treftadaeth – sefydliadau treftadaeth a safleoedd treftadaeth.
- Cronfa Gwasanaeth Diwylliannol ar gyfer llywodraeth leol.

A all awdurdodau lleol ymgeisio am gyllid?

Gallant. Yn rhan o'r pecyn cyllid hwn gan Lywodraeth Cymru, ceir Cronfa Gwasanaeth Diwylliannol ar gyfer llywodraeth leol. Bydd hon ar gael i amgueddfeydd, archifau, safleoedd treftadaeth, llyfrgelloedd neu sinemâu lleol sy'n cael eu rheoli neu eu gweithredu gan yr awdurdod lleol. Bydd Llywodraeth Cymru'n rheoli proses ymgeisio ar wahân ar yr un pryd ar gyfer awdurdodau lleol.

Beth am sefydliadau celfyddydol?

Mae cyfanswm o £27.5m o becyn cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi ei sefydliadau celfyddydol sydd ar waith yn nisgyblaethau cerddoriaeth, dawn, theatr, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a chymhwysol, celfyddydau cyfunol, a chelf ddigidol. Y dyddiad cau ar gyfer y cyllid hwn oedd 9 Medi 2020. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#).

A all sefydliadau cenedlaethol, fel yr Amgueddfa Genedlaethol neu'r Llyfrgell Genedlaethol, ymgeisio am gyllid?

Nid yw Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gymwys i ymgeisio am y cyllid hwn.

Sut mae ymgeisio?

Rhaid gwneud ceisiadau drwy wefan Busnes Cymru:
Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru – (hyd at) £10,000 –
<https://applicationscrf10k.businesswales.gov.wales/?culture=cy-GB>

Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru – (hyd at) £150,000 –
<https://applicationscrf150k.businesswales.gov.wales/?culture=cy-GB>

Am faint y gallaf ymgeisio?

Bydd y system frysbenneu'n nodi'r llwybr priodol ichi ei ddilyn. Bydd hwn yn eich cyfeirio naill ai at gronfa hyd at £10k neu gronfa am geisiadau hyd at £150k. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae eich anghenion yn fwy na hyn, cysylltwch â ni'n uniongyrchol i drafod.

A oes cyllid cyfalaf ar gael?

Nac oes. Cronfa referniw yn unig yw hon. Bydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cefnogi costau referniw yn unig. Nid yw costau y byddech yn eu cyfalafu yn eich cyfrifon yn gymwys am gymorth ond fe allwch ofyn am gyllid ar gyfer costau eitemau bychain o gyfarpar cyfalaf gan gynnwys nwyddau traul (fel cyfarpar diogelu personol neu sgriniau diogelu) a chynnwys gwaith ar raddfa fechan o natur referniw yn eich cais at ein hystyriaeth.

Pryd y gallaf ymgeisio?

Bydd modd gwirio cymhwyster o 1 Medi a bydd y broses ymgeisio ar agor o'r wythnos sy'n dechrau 14 Medi.

Beth yw'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau?

Rhaid cael ceisiadau erbyn 5pm ar 2 Hydref 2020.

Pa gyfnod y bydd y cyllid yn ymdrin ag ef?

Bydd y cyllid yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021.

Os byddaf yn llwyddiannus, pryd y caf fi'r cyllid?

Bydd penderfyniadau am geisiadau hyd at £10k yn dechrau'n fuan ar ôl y dyddiad cau, ac yna'r ceisiadau am hyd at £150k.

Sut bydd y ceisiadau'n cael eu gwerthuso? A fydd y ceisiadau'n cael eu trin ar sail y cyntaf i'r felin?

Na fyddant. Ni fydd ceisiadau'n cael eu trin ar sail y cyntaf i'r felin; bydd pob cais yn cael ei asesu ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd ym mhob ffurflen gais.

Rwyf eisoes wedi cael cyllid naill ai o Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru neu'r Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol a/neu Gronfa Frys Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru – a allaf ymgeisio o hyd?

Gallwch. Cynlluniwyd ein ffrwd gyllido flaenorol i ymdrin â gweithgarwch / treuliau cychwynnol yn y tymor byr ond mae'n rhaid ichi ddatgan unrhyw gymorth blaenorol a gawsoch wrth ymgeisio a pheidio â chynnwys yn y cais hwn unrhyw rai o'r costau a gefnogwyd yn flaenorol.

A ydy arian cyfatebol yn ofynnol?

Nac ydy, nid yw arian cyfatebol yn ofynnol ar gyfer y gronfa hon. Mae hyn er mwyn cydnabod sefyllfa anodd y sector ar hyn o bryd, felly nid ydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddarparu arian cyfatebol ychwanegol na chymorth arall.

A oes angen imi ddarparu cyfrifon busnes?

Oes. Bydd gofyn ichi ddarparu cyfrifon ar gyfer y 12 mis diwethaf, neu'r flwyddyn ariannol flaenorol, i ddangos bod y sefydliad yn ariannol ddichonadwy. Byddwn hefyd yn gofyn ichi nodi sut y bydd y swm y gofynasoch amdano yn cael ei ddefnyddio. Rhaid bod y swm y gofynnwyd amdano yn rhesymol ac wedi'i gyfiawnhau. Gallai hyn fod ar ffurf rhestr o wariant cymwys a gafwyd rhwng 1 Ebrill 2020 a 30 Medi 2020 a chynllun cyllideb ar gyfer 1 Hydref 2020 i 31 Mawrth 2021 neu ragamcaniad llif arian.

Beth yw'r 'Contract Diwylliannol'?

Mae'r Contract Diwylliannol yn rhan o Contract Economaidd Llywodraeth Cymru fel y'i cyflwynwyd yn "Ffyniant i Bawb - Cynllun Gweithredu Economaidd". Fe'i cynlluniwyd er mwyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu perthynas newydd a chryfach â sefydliadau a sbarduno twf cynhwysol ac ymddygiadau cyfrifol, gan gynnwys cynyddu argaeledd gwaith teg, twf gwyrdd a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Golyga fod y cwmnïau sy'n cael cymorth yn ymrwymo i ddull 'rhywbeth am rywbeth' sydd wedi'i seilio'n gadarn ar egwyddorion cydweithio.

Bydd y Contract Diwylliannol yn gofyn bod y sefydliadau a gefnogir drwy'r Gronfa Cydnerthedd Diwylliannol yn arddangos ymrwymiad i egwyddorion y Contract Economaidd. Yn benodol, byddwn yn ceisio profi ymrwymiad i'r canlynol:

- Gwaith Teg, gan gynnwys hyrwyddo amrywiaeth sector, iechyd (gyda phwyslais arbennig ar iechyd meddwl) a sgiliau gweithle; a
- Chynnydd o ran lleihau ôl troed carbon a chynyddu twf glân a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

Gofynnir i sefydliadau ystyried y Contract Economaidd drwy lens diwylliannol a chreadigol, a byddwn yn cymhwysu'r egwyddorion mewn modd cymesur a hyblyg sy'n cydreddeg â'r amgylchiadau ac amodau unigryw yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol.

Yn ogystal ag egwyddorion y Contract Economaidd, bydd gofyn i'r sefydliadau wneud Addunedau Diwylliannol mewn meysydd fel:

- Cadw staff i gefnogi mentrau ehangach e.e. olrhain cysylltiadau i gefnogi Profi, Olrhain, Diogelu
- Presgripsiynu cymdeithasol
- Cefnogi mentrau iechyd a'r celfyddydau.

Sut bydd y Contract Diwylliannol yn gweithio'n ymarferol?

Ar gyfer dyfarniadau o dan £10k gofynnir i gwmnïau gadarnhau eu hymrwymiad i'r egwyddorion yn rhan o'r broses ymgeisio. Gofynnir i sefydliadau roi gwybod sut

maen nhw'n gweithredu yn unol ag egwyddorion y Contract Diwylliannol yn rhan o wiriadau ôl-ddyfarnu.

Ar gyfer dyfarniadau dros £10k, bydd gofyn i sefydliadau gwblhau templed Contract Diwylliannol llawn a darparu tystiolaeth briodol cyn pen 12 mis o ddyfarnu, i arddangos sut y maent yn bodloni eu hymrwymiaidau.

A fydd y gronfa hon yn talu costau diswyddo?

Na fydd. Bwriedir i'r gronfa fod yn fodd i fusnesau/sefydliadau osgoi diswyddiadau neu gwtogi arnynt gymaint â phosibl.

Pa waith monitro fydd yn cael ei wneud?

Bydd ymarfer monitro ôl-gwblhau yn cael ei gynnal ar ôl diwedd y flwyddyn a bydd gofyn ichi roi gwybod am y gweithgareddau a gynhaliwyd â'r cyllid a gafwyd a nodi sut mae'r cyllid wedi cefnogi eich sefydliad.

A gaf fi ymgeisio i Gyngor Celfyddydau Cymru ac i Lywodraeth Cymru am gyllid?

Na chewch. Pennwyd y meini prawf cymhwyster mewn modd a ddylai'ch cyfeirio chi'r ymgeisydd at y llwybr mwyaf priodol am gyllid. Fodd bynnag, os yw Cyngor Celfyddydau Cymru wedi eich gwrthod am gyllid ar sail cymhwyster, a chithau o'r farn eich bod yn gymwys am gronfa Llywodraeth Cymru, cewch ymgeisio.

Rwy'n gweithredu sefydliad celfyddydau amatur. A allaf ymgeisio?

Na chewch, ni fydd sefydliadau amatur yn gymwys. Rhaid bod ymgeiswyr yn fusnesau sy'n gweithredu ac yn cyflogi yng Nghymru, a rhaid eu bod yn gallu cyflwyno o leiaf blwyddyn o ddatganiadau ariannol llawn wedi'u harchwilio neu ardystio'n annibynnol ond nid oes angen iddynt fod yn rhai a gofrestrwyd am TAW os yw cyfanswm y trosiant islaw'r trothwy cofrestru.

Rydym yn gwmni technegol sy'n darparu cyfarpar neu wasanaethau i theatrau, digwyddiadau a gwyliau; i ba gronfa y dylem ymgeisio?

Os yw'ch prif ffynhonnell o incwm yn deillio o lwyfannu neu gyflenwi digwyddiadau, fe ddylech ymgeisio o dan adran ddigwyddiadau'r cynllun hwn. Os na, dylech ddewis y maes sy'n fwyaf perthnasol i'ch prif weithgarwch busnes. Os ydych yn darparu gwasanaethau cymorth technegol i ystod gymysg ehangach o weithgarwch celfyddydol, wedi'ch cefnogi drwy Gyngor Celfyddydau Cymru ond wedi'ch gwrthod ganddo am gyllid ar sail eich cymhwyster, a chithau'n credu eich bod yn gymwys am gronfa Llywodraeth Cymru, cewch ymgeisio.

Rwy'n gweithio'n llawrydd yn y sector. Sut ydw i'n ymgeisio am gyllid?

Mae yna ffrwd gyllid benodol wedi'i chynllunio yn arbennig i chi. Cysylltwch â Busnes Cymru i gael gwybod rhagor am y gronfa ar wahân i weithwyr llawrydd.